

YSGOL GYNRADD HAFODWENOG



POLISI AMGYLCHEDDOL

Ysgol Gynradd Hafodwenog Polisi Amgylcheddol

Yn Ysgol Hafodwenog rydym ni yn falch iawn or agwedd bositif a chadarnhaol sydd yn ein hysgol tuag at yr amgylchedd. Anogwn awyrgylch ac ymdeimlad o barch tuag at yr amgylchedd a thrwy weithgareddau eco rheolaidd ymdrechwn i ddatblygu unigolion a fydd yn ddinasyddion byd-eang cyfrifol.

Anogwn i'n staff, ein plant, i'r rhieni a'r gymdeithas o'n cwmpas i ystyried eu hamgylchedd a'r effaith y caiff eu gweithredoedd ar y gymdeithas leol a'r gymdeithas ehangach. I'r pwrpas yma gwnewn yn siwr fod gweithgareddau amgylcheddol yn amlygu'n flaenllaw ac yn naturiol yn ein gwaith dosbarth ac ym mywyd dyddiol yr ysgol.

Yn Ysgol Hafodwenog anogwn ein plant i barchu eu hamgylchedd drwy osod eu sbwriel yn y bin. Rydym yn ail-gylchu cymaint â phosib, ac yn ymdrechu i arbed egni drwy droi golau diangen i ffwrdd. Ystyriwn bwysigrwydd arbed dŵr hefyd. Rydym ni yn cadw anifeiliaid (ieir, gwenyn) a defnyddiwn/gwerthwn eu cynnyrch i datblygu sgiliau entrepreneuraidd y plant.

Manteisiwn ar ein lleoliad amgylcheddol arbennig. Mae digon o dir gyda ni i dyfu amrywiaeth o lysiau a ffrwythau. Defnyddiwn y rhain a'r ffrwyth sy'n tyfu'n wyllt yn y perthi o'n cwmpas i ddatblygu sgiliau coginio cynladwy.

Mae'r ysgol yn falch iawn o'i hymdrechion yn y maes ac rydym eisioes wedi ein gwobrywyo gyda Gwobrau Eco Ysgolion Cenedlaethol. Cawn ein asesu'n rheolaidd ar sail meini prawf www.eco-schools.org.uk. Rydym wedi ennill 3 Baner Werdd ac hefyd y wobwr Eco Platinwm.

Mae Cyngor Eco yn yr ysgol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r plant, athrawon, llywodraethwyr a'r staff ategol. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd i osod targedau a chreu a monitor cynllun datblygu ein hysgol. Ymdrechwn i ddefnyddio asiantaethau allanol i gefnogi ein gwaith hefyd ac ystyriwn effaith positif ymweliadau addysgiadol ar yr addysgu.

<http://www.eco.ysgolccc.org.uk/>

Mae Ysgol Hafodwenog yn sicr yn llwyddo i hybu naws o falchder tuag at ein hysgol a'r amgylchedd. Paratwn ein disgyblion yn effeithiol i barchu eu hamgylchedd yn y dyfodol.

**Ionawr 2021
I'w ddiweddarw 2022**